

## Digwyddiadau cymunedol am ddim i ddychwelyd i'r Rhyl ar ôl absenoldeb o 18 mis.

Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn cynnal ei ddigwyddiad cyntaf ers mis Chwefror y llynedd gyda *September Sizzler* yn dod i'r stryd fawr.

Yn arwain diwrnod llawn digwyddiadau bydd Granny Turismo (yn y llun), pâr o neiniau sy'n cerdded o gwmpas gyda'u trolis siopa, yn benderfynol o greu drygioni a helynt. Maent wedi perfformio ledled y byd mewn sioeau stryd ar draws Ewrop, ond dyma'r tro cyntaf iddynt nhw ymddangos yn y Rhyl.

Meddai maer y dref, y Cynghorydd Diane King: "Yn gwbl briodol, daeth pob digwyddiad i ben yn sydyn ar ddechrau'r pandemig. Am y chwe blynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor Tref wedi cynnal digwyddiadau cymunedol am ddim ar y stryd fawr ac mewn mannau eraill o gwmpas y Rhyl. Maent wedi bod yn uchafbwyntiau yn ein calendr, ac rydym wedi colli cael dod â hwyl a gemau i'r dref.

"Mae'r September Sizzler yn llawn pethau i'w gwneud, ac ni allwn aros i ddod ag adloniant yn ôl i'r Rhyl Heulog. Nid ydym yn hunanfodlon, fodd bynnag, a byddwn yn bod yn ddoeth o ran mesurau Covid. Bydd pob act yn dilyn mesurau diogelwch, bydd gorsafoedd diheintio ar gael, a bydd y gweithgareddau yn cael eu gwasgaru – y cwbl yn yr awyr agored – er mwyn bod mor ddiogel ag y gallwn.

**Mwy/…**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

-2-

"Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r tîm yn Costigan's sy'n rhoi lle i'r actau ei ddefnyddio rhwng perfformiadau er mwyn ein helpu i lwyfannu digwyddiad yn yr hinsawdd sydd ohoni. Efallai y byddai pethau ychydig yn wahanol, ond ni fydd hyn yn wir am ein hymrwymiad i roi amser da i bobl y Rhyl."

Nid Granny Turismo a'u hact egniol fydd yr unig beth ar y stryd fawr. Bydd gemau glan y môr, sgiliau syrcas, cerddwyr stiltiau, delwau byw a cherddoriaeth gan y band drymio poblogaidd Batala hefyd yn rhan o'r diwrnod. Bydd arsefydliad celfyddyd anferth o'r enw The Pentagon hefyd yn rhoi cyfle i bobl arddangos eu hochr greadigol gyda darn anferth i waith celf yn cael ei wneud ar gyfer y dref.

Ychwanegodd y Cynghorydd King: "Unwaith eto, mae'r holl weithgareddau yn rhad ac am ddim, a dyma'n ffordd ni o ddweud diolch i bobl y Rhyl am eu hamynedd a'u dyfalbarhad yn ystod y pandemig a rhoi rhywbeth iddyn nhw edrych ymlaen ato ar ôl 18 mis anodd iawn. Ni allwn aros i gychwyn pethau unwaith eto."

Yn ystod y digwyddiad, bydd y Cyngor Tref hefyd yn dosbarthu'r diweddaraf yn ei gasgliad o fathodynnau gyda dau fathodyn rhifyn cyfyngedig ar gael i'r 200 o bobl cyntaf ar y diwrnod.

Cynhelir y September Sizzler ar Stryd Fawr y Rhyl ar ddydd Sadwrn 4 Medi 11am-4pm. I gael gwybod y diweddaraf am y cynlluniau, ewch i dudalennau cyfryngau cymdeithasol y cyngor, @rhyltowncouncil

**Diwedd**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications